

CYNGOR I GWMNĪAU BYSIAU

Amgueddfa Cymru – Awst 2022

Annwyl Weithredwr,

Rydym wrth ein bodd fod cymaint ohonoch eisiau cyflwyno eich cleientiaid i brofiadau amrywiol ein saith amgueddfa.

Archebu

Ar hyn o bryd gofynnwn i chi archebu ymweliad grŵp yn y ffordd arferol. Mae hyn yn golygu cysylltu â rhywun ar y safle. Y ffordd orau o gysylltu â ni fydd ar gyfeiriad e-bost pob amgueddfa:

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd:
addysg.sainffagan@amgueddfacymru.ac.uk

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd: addysg@amgueddfacymru.ac.uk

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe:
glannau@amgueddfacymru.ac.uk

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis: lechi@amgueddfacymru.ac.uk

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion:
rufeinig@amgueddfacymru.ac.uk

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon:
bigpit@amgueddfacymru.ac.uk

Amguedda Wlân Cymru, Sir Gaerfyrddin: gwlân@amgueddfacymru.ac.uk

Dyddiau Agor

<i>Amgueddfa/Safle</i>	<i>Dyddiau ar agor bob wythnos am y tro</i>
Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd	Saith diwrnod yr wythnos.
Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd	Chwech diwrnod yr wythnos. Ar gau ar ddydd Llun ag eithrio gŵyl y banc.
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe	Saith diwrnod yr wythnos.

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis	Saith diwrnod yr wythnos.
Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion	Mercher - Sadwrn
Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon	Saith diwrnod yr wythnos.
Amgueddfa Wlân Cymru. Sir Gaerfyrddin	Pum diwrnod yr wythnos – Dydd Mawrth – Dydd Sadwrn

Iechyd a Diogelwch

Mae iechyd a diogelwch ein hymwelwyr a staff yn hollbwysig, ac rydym wedi gweithio'n galed i leihau risgiau COVID-19 yn ein Hamgueddfeydd: Rydym yn annog ymwelwyr i wisgo gorchudd wyneb, i ddefnyddio gorsafoedd glanhau dwylo a chadw pellter cymdeithasol.

Mae pob un o'n Hamgueddfeydd wedi derbyn achrediad Good to Go gan Visit Britain.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi a'ch cleientiaid eto cyn hir.

Gwasanaethau Ymwelwyr, Amgueddfa Cymru